| DEFNYDD Y SWYDDFA GOFRESTRU YN UNIG | | |
|---|---|---|
| Rhif Cofrestr | Rhif | Rhif Tystysgrif |
| Dyddiad Cyflwyno | | |

# CAIS AM DYSTYSGRIF GENI

***DARLLENWCH Y NODIADAU DROSODD cyn cwblhau'r ffurflen hon os gwelwch yn dda***

**OS MABWYSIADWYD Y PERSON GWELER DROSODD**

## I'R SWYDDOG COFRESTRU SY'N DAL Y GOFRESTR

### 1 I'W LLENWI GAN Y PERSON SY'N GWNEUD CAIS AM Y DYSTYSGRIF

Eich Enw Llawn Mr / Mrs / Miss/Ms ..............................................................................
(RHOWCH EICH ENW LLAWN)

Eich Cyfeiriad..............................................................................................

..........................................................Côd Post: ............................... Rhif Ffôn: ...................................

### 2

Byddai'n ein cynorthwyo ni pe byddech chi'n nodi pam fod angen y dystysgrif arnoch chi ..........................
.....................................................................

### 3

A ydych chi'n gwneud cais am eich tystysgrif eich hun? Ydw/Nac Ydw
Os nad ydych chi, a fyddech chi cystal â nodi eich perthynas â'r person hwn/hon ................................

### 4 MANYLION AM Y DYSTYSGRIF GENI SYDD EI HANGEN

**ENW LLAWN AR ENEDIGAETH**
ENW(AU) CYNTAF

CYFENW

| **DYDDIAD GENI** | Dydd | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|---|
| | | | |

MAN GENI (Cyfeiriad llawn neu enw'r ysbyty)

**ENW LLAWN Y TAD/RHIANT***
ENW(AU) CYNTAF

CYFENW

**ENW LLAWN Y FAM**
ENW(AU) CYNTAF

CYFENW

CYFENW CYN PRIODI

### 5 ANGHENION (gweler dros y ddalen am y mathau o dystysgrifau sydd ar gael)

**A. TYSTYSGRIF GENI SAFONOL** £ ...........

Rwyf angen ................. tystysgrif geni safonol
(nifer)

**B. TYSTYSGRIF GENI FER** £ ...........

Rwyf angen ................. tystysgrif geni fer
(nifer)

**C. TYSTYSGRIF GENI at ddibenion statudol penodol** £ ...........

Rwyf angen tystysgrif geni at y dibenion a restrir isod sydd â thic (✓) wedi ei roi wrth eu hymyl

| | |
|---|---|
| DEDDF (GWEINYDDU) NAWDD CYMDEITHASOL | |
| DEDDF ADDYSG | |
| DEDDF FFATRÏOEDD | |
| BLWYDD-DALIADAU Y LLYWODRAETH | |
| TYSTYSGRIFAU RHYFEL NEU GYNILION GWLADOL | |
| BANC CYNILION GWLADOL | |
| BONDIAU CYNILO PREMIWM | |
| CYTUNDEBAU CYNILO | |

### 6

Llofnod ................................................................. Dyddiad ...............................................................

### 7

**(CEISIADAU DRWY'R POST YN UNIG) Amgaeaf siec/archeb bost am £** ....................................... yn daladwy i ....................................................... ac wedi ei chroesi "/& Gwmni/" ynghyd ag amlen wedi ei chyfeirio gyda stamp

*Ystyr "Rhiant" yw partner benywaidd y fam sydd o dan y Human Fertilisation and Embryology Act 2008 i'w thrin fel rhiant y plentyn

## GWYBODAETH AM DYSTYSGRIFAU GENI

### TYSTYSGRIF SAFONOL

Mae hon yn gopi cyflawn o'r cofnod geni ac mae'n cynnwys manylion am y rhieni a'r cofrestru.

### TYSTYSGRIF FER

Enw, cyfenw, rhyw, dyddiad geni ac ardal geni yn unig y mae'r dystysgrif fer yn ei dynodi. Mae hi'n ofynnol i chi nodi'r union ddyddiad a'r man geni ynghyd ag enw llawn a chyfenw'r sawl yr ydych eisiau ei d/thystysgrif ef/hi, yn ogystal â (mor bendant â phosibl) enwau a chyfenwau'r rhieni a chyfenw'r fam cyn priodi. Os ydych chi eisiau tystysgrif geni fer ac yn medru rhoi manylion llawn, a fyddech chi cystal â chwblhau'r ffurflen dros y ddalen. Oni roddir manylion llawn mae'n bosibl na roddir tystysgrif fer i chi.

### TYSTYSGRIF AT DDIBENION PENODOL

Mae tystysgrifau at ddibenion statudol penodol (ee Budd-dâl Plant a Nawdd Cymdeithasol) ar gael hefyd. Os gofynnwyd i chi gael tystysgrif o'r fath a fyddech chi cystal â thicio'r blwch priodol yn 5C dros y ddalen.

## GWYBODAETH AM DYSTYSGRIFAU MABWYSIADU

Mae manylion am fabwysiadu yng Nghymru a Lloegr yn cael eu cadw gan y Cofrestrydd Cyffredinol. Mae'r rhain yn ymwneud â phobl sydd wedi cael eu mabwysiadu ers 1 Ionawr 1927 dan y Deddfau Mabwysiadu. Mae tystysgrif safonol yn gopi cyflawn o'r cofnod yng Nghofrestr y Plant Mabwysiedig sydd, yn hytrach na chynnwys manylion am rieni a chofrestru'r geni, yn rhoi'r dyddiad geni (os yw'n wybyddus) a manylion am y mabwysiad a'r rhieni sydd wedi mabwysiadu. Dangos yr enw yn unig a wna'r dystysgrif fer ac ni cheir unrhyw gyfeiriad at fabwysiadu. Dylid cyflwyno ceisiadau am dystysgrifau mabwysiadu yn ysgrifenedig i'r General Register Office, PO Box 2, Southport, Merseyside, PR8 2JD. **PEIDIWCH Â DEFNYDDIO'R FFURFLEN HON I'R PERWYL HWNNW.** Gellir gw neu ceisiadau am dystysgrif safonol ar-lein hefyd. Gweler.www.direct.gov.uk am wybodaeth.

## CEISIADAU POST

Os ydych chi'n cyflwyno cais drwy'r post a fyddech chi cystal â chwblhau'r ffurflen hon a chynnwys amlen wedi ei chyfeirio gyda stamp ynghyd â'r ffi berthnasol mewn sterling. Gellir cael manylion am gost tystysgrifau o unrhyw swyddfa gofrestru. Dylid gwneud sieciau/archebion post yn daladwy i ………………………………………………………… ac wedi eu croesi "/& Gwmni/". **PEIDIWCH Â GYRRU ARIAN PAROD.**

Dylid gyrru'r ffurflen hon at Gofrestrydd Arolygol yr ardal lle cafwyd yr enedigaeth:

**PEIDIWCH** â defnyddio'r ffurflen hon ar gyfer cyflwyno ceisiadau i'r COFRESTRYDD CYFFREDINOL.

**Fe all gwybodaeth ynglŷn â'r cais hwn ei drosglwyddo i adrannau eraill y Llywodraeth neu asiantaethau cynnal y gyfraith ar gyfer pwrpasau datgelu ag atal troseddau.**

## CHWILIADAU O'R MYNEGEION GENI

Nid oes gan Gofrestrydd Arolygol mo'r staff i ymgymryd â chwiliadau o natur amhendant neu hir. Fel arfer, bydd chwiliad o'r mynegeion geni yn cael ei wneud lle nad ydyw'n cwmpasu cyfnod sy'n fwy na 5 mlynedd, a dim ond lle rhoddwyd gwybodaeth fanwl am gofrestriad y geni. Os bydd angen chwiliad ehangach, bydd angen i'r ymgeisydd neu rywun ar ei ran/rhan, wneud CHWILIAD CYFFREDINOL o'r mynegeion. Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch chi, gweler isod ac yna holwch y Cofrestrydd Arolygol.

## CHWILIADAU CYFFREDINOL YN SWYDDFA'R COFRESTRYDD AROLYGOL

Mae'r mynegeion yn swyddfa'r Cofrestrydd Arolygol yn ymwneud â genedigaethau, priodasau a marwolaethau a gymerodd le yn ardal y Cofrestrydd Arolygol penodol hwnnw/honno yn unig.

Mae CHWILIAD CYFFREDINOL yn chwiliad o'r mynegeion a wneir yn bersonol gan yr ymgeisydd neu gan rywun ar ei ran/rhan yn ystod cyfnod o faint fynnir o oriau olynol ond heb fod yn fwy na chwech. Gall y sawl sy'n gwneud CHWILIAD CYFFREDINOL, ar ôl gwneud trefniant gyda'r Cofrestrydd Arolygol, weld mynegeion cofrestrau'r genedigaethau, priodasau a marwolaethau, ond nid y cofrestrau eu hunain. Gellir cael tystysgrif ar gyfer unrhyw gofnod a welir ar ôl cwblhau ffurflen gais a thalu'r ffi berthnasol.

Os yw'r sawl sy'n gwneud CHWILIAD CYFFREDINOL yn ansicr ynghylch a yw cyfeiriad a gafwyd yn y mynegeion yn ymwneud â'r cofnod y mae ef/hi yn chwilio amdano, gall y Cofrestrydd Arolygol, ar ôl cael gwybodaeth fanwl ar gyfer canfod y cofnod, gyfeirio at y gofrestr er mwyn cadarnhau'r manylion hynny. Ar ffurf tystysgrif yn unig y caniateir rhoi gwybodaeth ychwanegol o'r cofnod.